

Ymarferydd dysgu seiliedig ar waith

Arolwg Cenedlaethol Gweithlu Addysg 2021

Dadansoddiad o sylwadau testun agored



1. Baich gwaith

Themâu cyffredinol o'r sylwadau testun agored – baich gwaith

- llai o faich achos
- llai o ddyletswyddau gweinyddol;
- cyflogi staff ychwanegol;
- ystyried ymhellach y baich gwaith nad yw'n ymwneud ag addysgu

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 582

Cyfanswm nifer yr ymatebion testun agored: 125

Mewn ymateb i:

Cwestiwn 5. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno eich bod yn gallu rheoli eich baich gwaith presennol yn effeithiol o fewn eich oriau gwaith dan gontract?

Dadansoddiad o'r sylwadau yn ymwneud â'r brif thema baich gwaith

1.1 Llai o faich achos (55 o sylwadau)

- Nid yw'r cynnydd yn y baich gwaith yn hylaw o dan yr amodau gweithio presennol.

Enghreifftiau

Rhoi cap ar lwythi achosion, lleihau llwythi achosion yn ôl rolau eraill, fel IQA, mentora ac ati.

Llai o lwyth achosion i helpu cynnal ansawdd a chymorth â mwy o ffocws i ddysgwyr

1.2 Llai o ddyletswyddau gweinyddol (45 o sylwadau)

- Mae dyletswyddau gweinyddol wedi cynyddu yn ystod y pandemig h.y. angen delio â llawer mwy o negeseuon e-bost a chyfarfodydd.
- Mae cymorth gweinyddol wedi gostwng.

Enghreifftiau

Edrych ar arferion gweithio sy'n cynhyrchu llai o waith gweinyddol.

Mynd â'r gweinyddu mawr sydd wedi'i osod ar diwtoriaid a'i roi i'r tîm cymorth gweinyddol, gan ganiatáu i diwtoriaid ganolbwyntio ar eu prif nod, sef addysgu, cefnogi a datblygu anghenion dysgwyr.

1.3 Cyflogi staff ychwanegol (19 o sylwadau)

- Mae diffyg staff cymwys – sydd wedi cynyddu baich gwaith gweddill y staff cymwysedig.
- Mae'r mathau o staff y gofynnwyd amdanynt yn cynnwys aseswyr, tiwtoriaid a chymorth gweinyddol.

Enghreifftiau

Mwy o staff i allu rheoli llwythi achosion a sgiliau.

Cyflogi mwy o aseswyr cymwys, anodd ym maes peirianeg oherwydd y cyflog.

1.4 Ystyried ymhellach y baich gwaith nad yw'n ymwneud ag addysgu (13 o sylwadau)

- Diffyg eglurder ynghylch dyletswyddau penodol pob rôl.
- Cydnabod pa mor hir mae rhai dyletswyddau yn ei gymryd er mwyn gallu adlewyrchu hynny mewn oriau gweithio.

Enghreifftiau

Gwahaniaethu'r rôl rhwng rolau a disgwyliadau. Gosod amser i ddatblygu adnoddau dysgu ac addysgu ac i ymgymryd â thasgau datblygu proffesiynol a pharatoi.

Gwneud y rôl y cefais fy nghyflogi i'w gwneud yn unig; rwy'n cael fy nhalu i fod yn aseswr ond mae disgwyl i mi fod yn IQA yn fy rôl asesu heb dâl ychwanegol. Rhwng y gorau i gynyddu faint o ddysgwyr sy'n cael eu dyrannu.

2. Baich gwaith – Darparu dysgu cyfunol / o bell

Themâu cyffredinol o'r sylwadau testun agored – darparu dysgu cyfunol / o bell

Gwaith ychwanegol:

- heriau darparu dysgu ar-lein/cyfunol a datblygu adnoddau;
- gofynion gweinyddu a / neu waith papur;
- TGCh – Dyluniad a dibynadwyedd systemau TG;
- dysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt (un ac un/bugeiliol/lles);
- llawer o lwythi achosion dysgwyr;
- heriau cyflwyno cymwysterau newydd a newidiadau i gyrsiau/asesu;
- pwysau targedau perfformio;
- effaith pandemig COVID-19.

Awgrymiadau ymarferol ar gyfer gwella:

- lleihau gwaith papur a symleiddio systemau adrodd;
- gostwng llwyth achosion aseswyr er mwyn:
 - rhyddhau amser i gynllunio, marcio, asesu a chefnogi;
 - cydnabod yr amser y mae ei angen ar gyfer rolau ychwanegol fel IQA a mentora aelodau staff newydd;
 - cydnabod y gwahaniaethau mewn amser teithio i wahanol unigolion (yn dibynnu a oes angen iddynt ddellio â chyflogwyr lleol neu orfod teithio ymhellach i ffwrdd);
- staff pwrpasol i ddellio â gweinyddu, ymrestru dysgwyr, marchnata, paratoi adnoddau ac amserlenni;

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 582

Cyfanswm nifer yr ymatebion testun agored: 222

Cyfanswm nifer yr awgrymiadau ymarferol ar gyfer gwella a roddwyd: 30

Mewn ymateb i:

Cwestiwn 9. Os yw eich baich gwaith wedi cynyddu ychydig neu'n sylweddol, esboniwch beth fu'r gwaith ychwanegol ac unrhyw awgrymiadau ymarferol ar sut y gellid gwella hyn.

Dadansoddiad o sylwadau yn ymwneud â thema dysgu cyfunol / o bell

2.1 Heriau darparu dysgu ar-lein/cyfunol a datblygu adnoddau (89 o sylwadau)

- Paratoi neu droi adnoddau i'w defnyddio ar-lein.

- Trafferth cael dysgwyr i ymgysylltu'n ddigidol.
- Mae cwmbras cyflwyno cyrsiau ymarferol ar-lein yn gyfyngedig iawn.

Enghreifftiau

Creu cynnwys digidol, roeddwn i'n addysgu llawer o gynnwys ymarferol.

Cynnydd sylweddol o ganlyniad i ddatblygu deunyddiau newydd i ddarparu dysgu cyfunol.

2.2 Gofynion gweinyddu a / neu waith papur (65 o sylwadau)

- Mae llenwi a derbyn ffurflenni'n cymryd mwy o amser o lawer yn ddigidol, h.y. asesiadau risg, cofnodi amser, cofnodion cysylltiadau.
- Treulio mwy o amser yn ysgrifennu adolygiadau ac ateb ymholiadau.
- Mae diffyg cyswllt wyneb yn wyneb wedi arwain at fwy o negeseuon e-bost a chyfarfodydd fideo.

Enghreifftiau

Mwy o e-bostio a galwadau ffôn, yn hytrach na sgysiau wyneb yn wyneb ar y safle. Mae dyletswyddau gweinyddol yn cynyddu, yn enwedig gweinyddu "biwrocratig". Gwella trwy fwrw golwg ar dasgau gweinyddol

Bu angen mwy o waith papur gweinyddol a chofnodi i sicrhau bod ein cyllidwyr yn gallu gweld ein bod ni'n parhau i ddarparu gwasanaeth. Cofnodi amser, adroddiad wythnosol fesul hyfforddai, cofnodion cysylltiadau ac ati.

2.3 TGCh – Dyluniad a dibynadwyedd systemau TG (44 o sylwadau)

- Roedd y seilwaith a'r arweiniad TG yn annigonol pan ddechreuodd dysgu cyfunol.
- Nid oes cyllid ar gael i ddarparu technoleg i ddysgwyr hebddi – mae'n creu anghydraddoldeb.

Enghreifftiau

Mae llawer o ddysgwyr heb gyfrifiaduron/gliniaduron ac ati, nid oes amser yn y sectoroherwydd effeithiwyd arno'n fawr, nid yw rhai'n gwybod sut mae defnyddio technoleg

Nid yw darparu'n rhithwir wedi bod mor effeithiol i mi oherwydd diffyg cydweithrediad TG gyda fy mhrif gleient.

2.4 Dysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt (un ac un/bugailiol/lles) (28 o sylwadau)

- Mae angen mwy o gymorth a chyfathrebu oherwydd diffyg ymgysylltu a thraul feddyliol y pandemig.
- Yn aml, darperir cymorth y tu allan i oriau gweithio fel nad yw'n cyd-daro ag oriau gweithio dysgwyr.

Enghreifftiau

Treuliais fwy o amser yn mynd ar ôl dysgwyr fel eu bod yn gweithio a'u helpu i ymgysylltu. Mae llawer ohonynt yn weithwyr rheng flaen sydd â phlant gartref yn ystod cyfnodau clo. Nid yw llawer o ddysgwyr yn cael cyllid mwyach ac rwy'n ceisio'u blaenoriaethu nhw, felly mae mwy o gyfarfodydd un ac un â nhw yn hytrach na darparu i garfan.

Mae prentisiaid yn gweithio ar eu diwrnod arferol yn y coleg felly mae cynnydd wedi gostwng yn sylweddol ac, os ydynt yn mewngofnodi ac yn gwneud gwaith o gwbl, gyda'r nos ac ar benwythnosau y mae hyn ac

mae angen cyngor a chymorth ar y rhan fwyaf ohonynt â chyfrifiaduron a'r gwaith angenrheidiol – 8.30 i 5.00 yw fy oriau gwaith i

2.5 Llawer o llwythi achosion dysgwyr (21 o sylwadau)

- 'Dwyn dysgwyr ymlaen' o flynyddoedd blaenorol oherwydd y pandemig.
- Mae dileu amser teithio wedi annog llwythi achosion mwy o faint.

Enghreifftiau

Cynnydd yn llwyth achosion dysgwyr oherwydd nad oes angen teithio cymaint mwyach.

Gweithio gyda dysgwyr sydd wedi mynd heibio i'w dyddiad gorffen am eu bod heb gwblhau o ganlyniad uniongyrchol i Covid-19, gan fod cyllid y dysgwyr hyn wedi dod i ben ac ni chânt eu cyfrif yn fy rhestr fyw o ddysgwyr.

2.6 Heriau cyflwyno cymwysterau newydd a newidiadau i gyrsiau/asesu (12 o sylwadau)

- Mae'r pontio i waith/asesu digidol wedi arwain at oedi oherwydd llythrennedd TG neu gyfathrebu gwael.
- Mae cyflwyno cymwysterau newydd a hyfforddiant aseswyr wedi effeithio ar y baich gwaith hefyd.

Enghreifftiau

Mae cyflwyno cymwysterau newydd wedi cynyddu fy maich gwaith yn aruthrol. Mae hynny ynghyd â datblygu hyfforddiant aseswyr a gweithredu'r rheolau ar liniaru wedi creu rhai tasgau enfawr.

Gorfod addasu er mwyn darparu, hyfforddi ac asesu ar-lein.

2.7 Pwysau targedau perfformio (9 o sylwadau)

- Mae rhai unigolion cofrestredig o'r farn bod disgwyliadau cyflogwyr yn afrealistig ac nad ydynt yn cyfrif am y cynnydd yn y baich gwaith a gyflwynwyd mewn ymateb i'r pandemig.

Enghreifftiau

Mae cyflawni pob agwedd ar fy ngwaith, ynghyd â darparu yn unol â llwythi gwaith a disgwyliadau afrealistig, yn cynyddu'r amser rydych chi'n gweithio'r tu hwnt i'ch oriau â thâl.

Mae fy llwyth achosion wedi cynyddu ac mae disgwyliadau fy sefydliad wedi codi.

2.8 Effaith pandemig COVID-19 (9 o sylwadau)

- Mae'r pandemig wedi effeithio ar fywyd unigolion cofrestredig mewn sawl ffordd, fel:
 - Diffyg cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.
 - Gorfod cyflenwi ar ran cydweithwyr sy'n absennol oherwydd y firws.
 - Mae'n fwy anodd cysylltu â dysgwyr a chael gafael arnyn nhw.

Enghreifftiau

Oherwydd y pandemig, mae 3 chydweithiwr wedi gadael, gan olygu mod i wedi gorfod ymgymryd â rhywfaint o'u llwyth achosion.

Nid yw'n ymarferol, gyda chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Mae gen i blant gartref i'w haddysgu a baich gwaith enfawr i'w reoli o hyd a thargedau i'w cyrraedd.

Dadansoddiad o sylwadau ynghylch awgrymiadau ymarferol ar sut y gellir gwella dysgu cyfunol/o bell:

2.9 Lleihau gwaith papur a symleiddio systemau adrodd (16 o sylwadau)

- Cael gwared ar y gwaith papur ychwanegol a gyflwynwyd yn ystod y pandemig.
- Llai o gyfarfodydd.
- Amser wedi'i neilltuo ar gyfer dysgu proffesiynol ac i ddatblygu adnoddau.

Enghreifftiau

Oherwydd bod adolygiadau o bell yn cael eu cynnal, roedd disgwyl i ni weld mwy o ddysgwyr sydd, yn ei dro, yn golygu mwy o asesiadau, marcio a gwaith papur i'w cwblhau. Torrwch yn ôl ar y hyn.

Mae'r cynnydd mewn tasgau gweinyddol ac arolygon yn ddiangen, gan gymryd mwy o'm hamser gyda'r dysgwyr; pe bai hyn yn cael ei leihau, gellid ailgyfeirio'r amser at y dysgwyr.

2.10 Gostwng llwyth achosion aseswyr (7 o sylwadau)

- Rhyddhau amser i gynllunio, marcio, asesu a chefnogi;
- Cydnabod yr amser y mae ei angen ar gyfer rolau ychwanegol fel IQA a mentora aelodau staff newydd;
- Cydnabod y gwahaniaethau mewn amser teithio i wahanol unigolion (yn dibynnu a oes angen iddynt ddelio â chyflogwyr lleol neu orfod teithio ymhellach i ffwrdd);

Enghreifftiau

Mae'r llwyth achosion targed (40) i mi yn rhy uchel o lawer ar gyfer y cymwysterau rwy'n eu darparu. Byddai gostyngiad mawr yn helpu i mi gyflwyno QOS a safon asesu uwch o lawer.

Mae dysgu'r cymhwyster newydd a gweithredu'r broses IQA wedi gosod llwyth achosion ychwanegol – posibilrwydd o ostwng llwythi achosion ar gyfer rolau deuol

2.11 Staff pwrpasol i ddelio â gweinyddu, ymrestru dysgwyr, marchnata, paratoi adnoddau ac amserlenni (3 o sylwadau)

- Mae mwy o weinyddu a throsi adnoddau yn cymryd gormod o amser ac mae hyn yn cael sgil effaith ar ddysgwyr.

Enghreifftiau

Mae angen mwy o gefnogaeth i aseswyr, sy'n gorfod trosi popeth yn ddigidol. Mae portffolios ac IQA papur wedi bod yn hunllef.

Mae'r gweinyddu wedi cynyddu – Mae angen symud mwy o weinyddu i'r tîm gweinyddol, y mae angen iddynt fod yn fwy ymarferol wrth gysylltu â dysgwyr i gasglu gwybodaeth ganddynt a'i roi yn y system, a pheidio â dibynnu ar diwtoriaid i wneud hyn, sy'n tynnu'r tiwtoriaid rhag eu haddysgu a'u datblygu. Ymgymryd â mwy nag un rôl oherwydd prinder staff – Cynyddu'r staff.

3. Dysgu proffesiynol

Themâu cyffredinol o sylwadau testun agored dysgu proffesiynol

- sgiliau TGCh gan gynnwys dysgu digidol/cyfunol
- dysgu proffesiynol yn gysylltiedig â diwydiant
- iechyd meddwl a lles
- gwella sgiliau Cymraeg
- arweinyddiaeth a rheolaeth

Cyfanswm yr ymatebion: 582

Cyfanswm yr ymatebion testun agored: 323

Mewn ymateb i:

Cwestiwn 18. Ym mha feysydd y byddech yn croesawu datblygiad pellach i'ch helpu i fod yn weithiwr addysg proffesiynol mwy effeithiol? (rhestrwch hyd at dri maes)

Dadansoddiad o sylwadau sy'n ymwneud â'r prif themâu dysgu proffesiynol

3.1 Sgiliau TGCh gan gynnwys dysgu digidol/cyfunol (99 o sylwadau)

Enghreifftiau

Mwy o gyflwyno digidol / hyfforddiant dysgwyr.

Defnyddio TG ymhellach i wneud yn siŵr fy mod i'n cefnogi pobl eraill hyd eithaf fy ngallu.

Dysgu digidol pellach.

Cael mwy o gipolwg i ba adnoddau ychwanegol sydd ar gael i ddarparu dysgu ar-lein effeithlon, platfformau / gwefannau ychwanegol ac ati.

3.2 Dysgu proffesiynol yn gysylltiedig â diwydiant (82 o sylwadau)

Enghreifftiau

Rwy'n eithaf bodlon bod fy ngwybodaeth i'n gyfredol oherwydd rwy'n ymwneud o hyd â datblygu cymwysterau ac rwy'n cadw mewn cysylltiad agos â diwydiant.

Ymarfer yn y diwydiant.

Hyfforddiant sector penodol.

Sgiliau a chymwysterau dysgu ac addysgu.

Mwy o gefnogaeth i gwblhau fy hyfforddiant TAQA, datblygiad proffesiynol parhaus / hyfforddiant ar ddatblygiadau newydd (e.e. deunyddiau cyfansawdd, gyriant trydanol).

3.3 Iechyd meddwl a lles (30 o sylwadau)

Enghreifftiau

Cymorth llythrennedd i ddysgwyr, cymorth dyslecsia.

Cefnogi iechyd meddwl ymhlith dysgwyr.

Rwy'n teimlo' mod i wedi gallu cefnogi dysgwyr rwy'n gweithio gyda nhw ac, os ydw i wedi cael problemau, rwy' wedi siarad ag eraill i'm cefnogi i.

Cynnal symbyliad dysgwyr.

Hoffwn fynychu cwrs cwnsela fel y gallaf gefnogi fy nysgwyr ymhellach.

3.4 Gwella sgiliau Cymraeg (24 o sylwadau)

Enghreifftiau

Cymraeg i lefel uwch.

Hyfforddiant i ddatblygu fy Nghymraeg.

Cylch Sgiliau o gyflogwyr lleol, lle y gellid defnyddio adborth i annog mwy o ymgysylltiad Cymraeg o fewn y gymuned.

Parhau â'r cwricwlwm Cymraeg.

3.5 Arweinyddiaeth a rheolaeth (23 o sylwadau)

Enghreifftiau

Profiad rheoli.

Sgiliau rheoli ac arwain.

Hyfforddiant penodol ar arweinyddiaeth i'r sector dysgu seiliedig ar waith.

Gweminarau ar feysydd penodol, fel arweinyddiaeth.

Yn ddiweddar, rwy' wedi cael fy nyrchafu, felly mae fy nghyflogwr wedi cynnig cwrs rheoli i mi ac rwy' o'r farn y bydd hwn yn ddefnyddiol iawn.